



DRAFFT

Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg

Strategaeth sosioi-economaidd i osod seiliau cadarnach i'r Gymraeg drwy:

- Ddefnyddio'r Gymraeg fel sbardun Economaidd
- Leihau allfudo
- Adnabod y galw am wasanaethau Cymraeg
- Ehangu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg
- Cyplysu'r angen gyda chyfleoedd gwaith a hyfforddiant
- Adnabod cyfleoedd economaidd

Papur Trafod

Meirion Davies & Iwan Williams
Mai 2014

1. Crynodeb

Yn sgil ffigurau'r cyfrifiad mae Mentrau Iaith Cymru yn awyddus i ymateb mewn ffordd adeiladol a dychmygus ac arloesol. Er mwyn gwyrddroi'r dirywiad yn sefyllfa'r Gymraeg credwn ei bod hi'n hollbwysig cyplysu'r iaith â'r economi.

Bwriad y papur hwn yw cynnig sefydlu Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg i gryfhau'r economi a chryfhau sefyllfa'r Gymraeg ar draws Cymru.

Bydd y cynllun hefyd yn cynorthwyo cyrraedd nod maes strategol 4, Y Gweithle yn Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru Iaith Fyw: Iaith Byw a chyrraedd y nod o 'gynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a chael mwy o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.'

Mae rhai enghreifftiau yn bodoli yn barod o Farchnadoedd Llafur Cyfrwng Cymraeg sy'n gweithredu yn naturiol mewn rhannau o Gymru, ynghyd â chynlluniau sydd yn llwyddo i greu gweithlu ar gyfer sectorau penodol.

Bydd hyn yn broses hir dymor, ac yn cynnwys sawl lefel o weithgaredd a chydweithio gyda phartneriaid o sectorau amrywiol. Credwn ei fod yn hynod bwysig ein bod yn edrych o ddifrif ar y sefyllfa hon nawr ac yn cynllunio ar gyfer dyfodol dwyieithog yng Nghymru.

2. Cefndir

Mae cael economi cryf yng Nghymru yn holl bwysig, ac mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol i lywio dyfodol economaidd lewyrchus i'n gwlad. Rydym felly yn falch o weld yr economi yn derbyn sylw haeddiannol yn nogfen 'Rhaglen Lywodraethu 2011-16' ac o weld cynlluniau arloesol yn datblygu megis 'Ardaloedd Menter' ac 'Ardaloedd Adfywio Strategol'.

Dymuniad Mentrau Iaith Cymru yw gweld datblygu'r economi yn digwydd law yn llaw â'r nod o greu Cymru ddwyieithog. Credwn fod modd cynorthwyo i ddatblygu'r economi drwy edrych ar y Gymraeg fel sgil sydd yn creu cyfleoedd gwaith gan gyflogwr, ac yn galluogi pobol i gael swyddi a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hyn, credwn fod modd creu swyddi newydd i siaradwyr Cymraeg mewn meysydd sydd heb eu datblygu yn llawn.

Mae Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am:

'Wella lefelau cyrhaeddiad a grymuso plant, pobl ifanc ac oedolion i sicrhau lles cymdeithasol ac economaidd, sy'n hollbwysig i ddatblygu economi ffyniannus.'


Rydym ni o'r farn bod modd i Mentrau Iaith Cymru gynorthwyo i gyflawni hyn gyda Chynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg.

Allfudo

Mae'r diagram isod yn ganlyniad o waith ymchwil gan Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2010) sydd yn dangos demograffeg flynyddol siaradwyr Cymraeg. Mae'n dangos bod y ffactorau sydd yn gwanhau sefyllfa'r Gymraeg yn deillio o ddiffyg cyfleoedd gwaith, yn benodol gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, sydd yn ei dro yn arwain at sefyllfa o allfudo o Gymru.

Yn ôl astudiaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2010) amcangyfrifwyd bod colled blynyddol o 3,000 o siaradwr Cymraeg.

Newid blynyddol yn y nifer o siaradwyr Cymraeg rhugl



Ymchwil Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2010)
Graffeg ddim i raddfa

Un o'r prif resymau dros y golled yma yw bod 5,200 o bobol yn allfudo pob blwyddyn. Wrth ystyried fod oddeutu 562,000 o siaradwyr Cymraeg yn ôl cyfrifiad 2011, nid yw'r sefyllfa yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Mae'r sefyllfa o allfudiad sylweddol yn bennaf oherwydd diffyg cyfleoedd gwaith addas lle cydnabyddir sgiliau siaradwyr Cymraeg. Nid oes gan y Gymraeg droedle economaidd digonol i'w chynnal.

Mae gwir faint y broblem yma yn cael ei amlygu'n oer mewn gwaith diweddar gan Delyth Morris o Brifysgol Bangor:

"Around a third of 1991's 15-year-old Welsh-speakers had migrated to England by 2001."

(Delyth Morris (2010) 'Welsh in the 21st Century', Cardiff; University of Wales Press)

Os yw'r patrwm hyn yn parhau ar y raddfa a nodir uchod, mae'r tueddiad yn dangos mai dim ond 300,000 o siaradwyr Cymraeg fydd yng Nghymru mewn 100 mlynedd, a bydd dim un siaradwr Cymraeg o fewn 200 mlynedd.

Eisoes mae Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru Iaith Fyw:Iaith Byw yn mynd i'r afael gyda rhai ffactorau a amlygir yn y diagram uchod drwy geisio cynyddu:

- Nifer o blant sydd yn dysgu Cymraeg trwy addysg cyfrwng Cymraeg
- Plant sydd yn defnyddio'r Gymraeg gartref e.e. gyda chynlluniau fel TWF

Eto does ddim un cynllun presennol yn mynd ati i ddelio gyda 2 o brif wendidau sefyllfa'r Gymraeg, sef allfudo a diffyg gwasanaethau yn y Gymraeg.

Diffyg Gwasanaethau

Ar un llaw rydym yn dioddef allfudiad brawychus o bobl ifanc sydd yn medru'r Gymraeg tra ar y llaw arall rydym yn dioddef o ddiffyg gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn ein rhwystro i fyw ein bywydau beunyddiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Eto credwn mai dyma ble mae un o brif wendidau ac un o brif obeithion y Gymraeg yn gorwedd.

Roedd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gymorth i sicrhau twf mewn gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ond roedd yn bell o wireddu ei wir botensial. Yn bennaf felly am nad oedd yn adnabod y galw am wasanaethau gan briodi hynny gydag anghenion hyfforddiant a gweithlu addas i gwrdd â'r galw. Roedd cynllunio sgiliau iaith o fewn gweithleoedd cyhoeddus yn ystyriaeth eilradd oedd yn cael ei reoli gan adrannau adnoddau dynol y cyrff eu hunain ac nid oedd unrhyw bwysau gwleidyddol allanol i'w cymell.

Gyda sefydlu swydd y Comisiynydd Iaith a dyfodiad y system safonau newydd, gobeithir y bydd cynllunio sgiliau iaith yn dod yn rhan fwy integredig o gynllunio gweithleoedd ac y gall y gyfundrefn safonau yrru'r angen am sgiliau iaith Gymraeg tua'r dyfodol.

Trwy sefydlu'r cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg, credwn y byddai gwasanaethau Cymraeg ar gael yn ehangach ac yn fwy cyson. Byddai'r cynllun felly'n elwa'r unigolion, y gweithleoedd a'r gwasanaethau Cymraeg.

3. Y Sefyllfa Bresennol

Ar hyn o bryd nid oes cynllun penodol yn ymwneud a'r Gymraeg sydd yn dylanwadu ar ffactorau megis mewnfudo, allfudo a gwerth economaidd y Gymraeg.

O'r wybodaeth yr ydym wedi casglu drwy weithio yn gymunedol ar draws Cymru, mae sawl her yn bodoli ar hyn o bryd sydd angen eu taclo:

- Yn hanesyddol mae'r Gymraeg wedi dioddef o ddiffyg statws economaidd

- Nid yw'r sgil o siarad Cymraeg yn cael ei gydnabod gan ganran uchel o gyflogwyr
- Mae siaradwyr Cymraeg ifanc yn gadael Cymru a'u bröydd genedigol i chwilio am waith
- Mae' rhai sydd yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg yn colli'r iaith oherwydd diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Does dim trosglwyddo iaith yn digwydd o fewn nifer o deuluoedd oherwydd diffyg statws i'r Gymraeg.
- Mae anhawster cyson i dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg
- Nifer isel iawn o ddysgwyr yn dod yn rhugl yn y Gymraeg

Mae datblygiadau diweddar o ran y Gymraeg wedi rhoi statws i'r iaith. Bydd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cryfhau'r ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwn y Gymraeg. Gwelwn hwn fel gyriant i'r angen am Farchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg fydd yn cyplysu sgiliau efo anghenion gwasanaeth. Ein gobaith yw gweithio â Chomisiynydd y Gymraeg i ddatblygu'r cynllun. Credwn fod angen cyplysu cynlluniau i gynyddu defnydd o'r Gymraeg gyda pholisïau hyfforddiant ac adfywio economaidd er mwyn creu dyfodol llewyrchus lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gweithle.

Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg yn gweithio er budd yr economi a'r iaith - enghreifftiau

Yn galonogol, mae esiamplau yn bodoli o sefyllfaoedd naturiol o roi gwerth economaidd i'r Gymraeg mewn rhai ardaloedd .


Cyflogaeth Caernarfon a Chaerdydd v y Gorllewin

Caernarfon - mae'n ardal naturiol Gymraeg sydd yn cadw gweithlu o siaradwyr Cymraeg cynhenid ac yn denu rhai newydd i'r ardal. Mae canran o siaradwyr Cymraeg yng Nghaernarfon yn aros yn gyson ac mae cyfleoedd gwaith cyfrwng Cymraeg ar gael yno.

Caerdydd - mae gwaith cyfrwng Cymraeg yn cadw a denu gweithlu o siaradwyr Cymraeg yn y ddinas. Nid yw'n gyd-ddigwyddiad fod yna gynnydd sylweddol yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd oherwydd y cyfleoedd gwaith niferus sydd ar gael yno.

Mae'r cyfrifiad 2011 yn dystiolaeth bellach o hyn. Mae'r map isod yn dangos newid ar lefel wardiau. Gall gweld fod ardal Caernarfon yn cynnal a hyd yn oed cynyddu'r % o siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd Cymraeg % uchel. Hefyd gall gweld cynnydd mewn wardiau yn ardal Caerdydd. Heb os mae hyn yn gyfuniad o gyflogaeth lle'r mae'r Gymraeg yn hanfodol a system addysg sydd yn cynhyrchu siaradwyr Cymraeg. Mae hyn mewn cyferbyniad efo Siroedd traddodiadol Cymraeg fel Sir Gar a Cheredigion lle nad yw'r Gymraeg efo cymaint o ddylanwad economaidd ac addysgol. Fel canlyniad ond gostyngiad a welwyd yn y siroedd yma.

Map 5: Newid yn y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul AGEHI, 2001 i 2011 (a)



Cynlluniau Iaith – Economi ymarferol ar waith

Hefyd mae rhai enghreifftiau o gynlluniau penodol sydd yn mynd i'r afael a'r materion hyn, a gellir eu defnyddio fel cynlluniau i ddysgu beth sydd yn llwyddo a beth sydd ddim, er mwyn gyrru cynllun uchelgeisiol yn y dyfodol:

Cynllun sabothol i athrawon a chynorthwydd dosbarth - cyfle i wella eu gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Wedi bod yn llwyddiannus i gael nifer o unigolion sydd eu hangen i lenwi'r swyddi sydd ar gael.

Cynllun Hyfforddiant Awyr Agored Menter Iaith Conwy –

Yn ôl gwaith ymchwil yn 2004 gan Brifysgol Bangor adnabyddwyr diffyg yn y niferoedd o siaradwyr Cymraeg yn y diwydiant awyr agored yn y Gogledd Orllewin. Gwelwyd mai dim ond 5% o'r gweithlu oedd yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynllun hwn yn cynnig hyfforddiant yn y maes awyr agored i siaradwyr Cymraeg, fel eu bod yn gymwys i weithio yn y sector yn y dyfodol. Erbyn hyn mae'r cynllun wedi hyfforddi dros 200 ac rydym yn amcan fod y canran o siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu wedi cod i 29%.

4. Y Weledigaeth

- Sefydlu Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg
- Sefydlu Corff Datblygu i gydlynu'r cynllun

- Gweithio mewn partneriaeth
- Creu gwaith a chyplysu unigolion gyda gwaith
- Sefydlogi demograffeg siaradwyr Cymraeg

Mae'n hanfodol creu siaradwyr Cymraeg newydd drwy'r maes addysg a chymhathu, ond mae hyn yn ddiystyr heb ddefnydd o'r iaith yn y gweithle ac yn gymdeithasol.


Bydd angen cydweithio gyda sefydliadau ar draws yr holl sectorau yng Nghymru a chreu gweledigaeth glir o'r berthynas rhwng y Gymraeg a'r economi. Bydd y partneriaid posib yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Y Coleg Cymraeg, Awdurdodau Lleol, y Sector Preifat, Mentrau Cymdeithasol a Mudiadau gwirfoddol), Comisiynydd y Gymraeg ayyb.

Credwn drwy greu Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg gallwn ddylanwadu ar y ffactorau sydd yn golygu bod niferoedd o siaradwyr Cymraeg yn gostwng bob blwyddyn. Bydd y cynllun yn gwneud cynnal y Gymraeg yn llawer mwy holistaidd, ar draws pob sector, gydag allbynnau ffafriol:

- adnabod meysydd lle mae yna alw am wasanaeth Cymraeg
- creu cyflogaeth newydd
- bwydo unigolion sydd yn mynd drwy addysg cyfrwng Cymraeg i swyddi lle maent yn defnyddio'u Cymraeg
- cryfhau cymunedau a rhwydweithiau cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru
- cryfhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ym mhob sector
- lleihau allfudo ynghyd â lleihau newidiadau demograffeg niweidiol
- codi statws a gwerth economaidd y Gymraeg fydd yn ei dro yn cael effaith cadarnhaol ar raddfeydd trosglwyddo iaith a'r galw am addysg Gymraeg
- gwneud Mentrau Cymdeithasol sydd yn datblygu gwasanaethau Cymraeg a'r Mentrau Iaith yn fwy cynaliadwy
- gwell marchnata o wasanaethau Cymraeg fydd yn arwain at fwy o ddefnydd

Mae'r effeithiau yma yn cael eu gweld mewn model syniadaeth sydd eisoes wedi ei ddatblygu gan sosioieithydd o Gatalwnia **Miquel Strubell**

Olwyn Dân (Strubell 1999, 241)



5. Y Ffordd Ymlaen

Rydym yn ymwybodol bod angen creu achos cryf ar gyfer Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Gymraeg ar sail tystiolaeth. Gobeithiwn fod modd cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cysyniad ac i gasglu mwy o dystiolaeth fel ein bod ar seiliau i fedru cynllunio a gweithredu er mwyn rhoi gwerth economaidd amlwg i'r iaith Gymraeg. Yn ein dogfen wreiddiol yn 2013 awgrymwyd fod y camau canlynol yn cael eu cymryd:

1. Ymchwil

Dadansoddi data a gwybodaeth sydd yn bodoli eisoes gan Lywodraeth Cymru ac eraill i greu darlun cyflawn o'r anghenion.

Comisiynu arolwg newydd yn edrych ar y sefyllfa bresennol er mwyn adnabod unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth bresennol.

Ystyried gwerth cynlluniau o'r gorffennol megis Llwybro gan y WDA. Cynllun oedd yn mapio allfudiad ceisio denu Siaradwyr Cymraeg yn ôl i Gymru.

Mae'r gwaith yma yn cyd-fynd â'r targed yng Nghynllun Gweithredu Iaith Fyw:Iaith Byw:

28. Cynnal adolygiad o'r farchnad lafur i gasglu gwybodaeth ychwanegol er mwyn deall yn well yr angen ymhlith cyflogwyr am sgiliau iaith Gymraeg, a defnyddio'r wybodaeth hon wrth gynllunio a pharatoi rhaglenni yn y dyfodol.

2. Trafodaethau gyda phartneriaid

- Trafodaethau rheolaidd gyda sefydliadau sydd yn gweithredu yn gymunedol ac ym mhob sector.
- Cydweithio gyda'r Grŵp Economi Iaith Cymru yn benodol i ddatblygu'r cysyniad hwn ac ystyried ei botensial i'r dyfodol.

Mae'r gwaith yma yn cyd-fynd a tharged yng Nghynllun Gweithredu Iaith Fyw: Iaith Byw:

24. Ailsefydlu'r Grŵp Economi Iaith Cymru.

(Tud 9, Iaith Fyw: Iaith Byw Strategaeth y Gymraeg 2012–17 - Cynllun Gweithredu 2012–13)

Erbyn hyn mae'r camau yma wedi eu cymryd ac mae achos y cynllun yma yn cael ei chydabod mewn nifer o adroddiadau a chomisiynwyd gan y Llywodraeth a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn ddiweddar ac ym mhob adroddiadau ceir tystiolaeth o werth datblygu cynllun o'r fath;:

Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith (Rhagfyr 2013)

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys papurau cefndir ar y meysydd blaenoriaeth a chynllun gwaith ar gyfer cynyddu nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Daeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i benderfyniad yn gynnar yn y broses mai'r meysydd allweddol oedd: Demograffeg, Trosglwyddo'r Iaith, Addysg, Statws, Economi, Seilwaith a Bwrlwm Cymdeithasol.(tud 4)

Y sefyllfa i'w chwennych yw economi lwyddiannus a deinamig wedi'i phriodi â pholisïau ieithyddol addas sy'n cael eu gweithredu'n ddoeth ond yn benderfynol. Gellir defnyddio'r term prif-ffrydio i ddisgrifio'r priodi hwn ac fe rown yr her hon i Lywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill, gan gynnwys yr awdurdodau lleol perthnasol, i'w chyflawni.(tud 53)

Anogwn y Llywodraeth i gynorthwyo'r Mentrau Iaith ac asiantaethau partner addas i ddatblygu prosiectau refeniw a chyfalaf uchelgeisiol a fydd yn ganolbwynt i ymdrechion adfywio a hybu cyflogaeth yn ardaloedd y canrannau uchel. Mae rhinweddau amlwg i'r Cynllun Marchnad Lafur ac mae'r uchelgais cenedlaethol i'w gymeradwyo. Anogwn WEFO a Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygu'r cynllun busnes mewn cydweithrediad â Mentrau Iaith Cymru er mwyn asesu'n effeithiol y modd y gall y cynllun hwn gyflawni amcanion perthnasol strategaethau *Iaith Fyw: Iaith Byw a Twf a Swyddi Cynaliadwy*.(tud 55)

Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu (Economaid i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (Ionawr 2014)

Argymhellion

Mae'r Grŵp yn argymhell y dylid ystyried swyddogaethau perthnasol Menter a Busnes a'r Mentrau Iaith gyda golwg ar roi cyfrifoldebau datblygu economaidd i'r Mentrau Iaith. (tud10)(perthnasol i'r elfen Mentrau Cymdeithasol a chymorth busnes)

Mae'r Grŵp yn argymhell y dylid ffurfio clystyrau a rhwydweithiau o fusnesau sy'n defnyddio'r Gymraeg.

Codwyd pwysigrwydd sefydlu rhwydweithiau effeithiol o fusnesau sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg ac sy'n ceisio cyflogi staff dwyieithog gan nifer o'r ymatebwyr, gydag awgrym bod angen brys i fonitro'r galw am gyflogeion dwyieithog. Mae'n bosibl cyflawni hyn drwy sefydlu Arsyllfa'r Farchnad Lafur Gymraeg neu gynllun tebyg a allai gydgysylltu'r ymdrechion i hysbysebu cyfleoedd swyddi, ond a fyddai hefyd yn cyfrannu at waith cynllunio'r gweithlu, cynllunio olyniaeth a chynllunio darpariaeth datblygu'r gweithlu er mwyn iddo allu adlewyrchu'r galw am sgiliau dwyieithog.(tud24)

Adolygiad o Waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg AmanTawe (Ionawr 2014)

Effaith ehangach y tu hwnt i amcanion ieithyddol craidd
Gofynnodd yr holiadur ynghylch canlyniadau gwaith y sefydliadau y tu hwnt i brif amcanion ieithyddol e.e. tlodi/tlodi plant/helpu rhieni i ddychwelyd i'r gwaith a gwella ansawdd bywyd cymunedol.

At ei gilydd, cafwyd atebion ar fynd i'r afael â thlodi a gwella'r economi leol. Fodd bynnag, prin (ag ambell i eithriad disglair) oedd yr enghreifftiau y gellid eu hystyried yn hunangynhaliol neu a fyddai'n creu effaith lluosogi tymor hir. Ymhlith yr eithriadau hynny yr oedd cynllun awyr agored (a chynllun i sefydlu cwmni Cymraeg i gynhyrchu trydan drwy hydro), ill dau o eiddo Menter Iaith Conwy.(tud50)

6.4.3 Prif ffrydio ystyriaethau economaidd

Enghraifft a gafwyd o'r gwaith maes yw'r Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg (Mentrau Iaith Cymru et al., 2013). (Gweler hefyd gynig cysylltiedig (Cwmni Iaith and Menter a Busnes, 2002)).

Mae'r cynllun ei hun yn sylweddoli pwysigrwydd perthnasedd cymdeithasol i'r Gymraeg gan gydnabod y cyfraniad y mae'r system addysg wedi ei wneud, ond gan fwrw'r disgwrs yn ei flaen i fyd yr economi. Nod y cynllun yw cryfhau economi Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg gan fabwysiadu dull aml-asiantaeth i greu gweledigaeth ar y cyd (mae'r partneriaid y mae MIC yn eu hawgrymu yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Awdurdodau Lleol, y Sector Preifat, Mentrau Cymdeithasol a Mudiadau gwirfoddol), Comisiynydd y Gymraeg).

Nod cynllun arfaethedig Mentrau Iaith Cymru et al. (2013) yw:

- adnabod meysydd lle mae yna alw am wasanaeth Cymraeg
- bwydo unigolion sydd yn mynd drwy addysg cyfrwng Cymraeg i swyddi lle maent yn defnyddio'u Cymraeg
- cryfhau cymunedau a rhwydweithiau cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru
- cryfhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ym mhob sector
- lleihau allfudo ynghyd â lleihau newidiadau demograffeg niweidiol
- codi statws a gwerth economaidd y Gymraeg fydd yn ei dro yn cael effaith cadarnhaol ar raddfeydd trosglwyddo iaith a'r galw am addysg Gymraeg.
- gwneud Mentrau Cymdeithasol sydd yn datblygu gwasanaethau Cymraeg a'r Mentrau Iaith yn fwy cynaliadwy
- gwell marchnata o wasanaethau Cymraeg fydd yn arwain at fwy o ddefnydd.

Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw'r cynllun hwn eto ar waith ac ni ellir, o'r herwydd, cyfrif ei effaith neu ei gyfraniad fel arfer da.

Cryfder y cynllun arfaethedig fyddai harneisio diddordebau'r Mentrau â phrif actorion polisi'r Gymraeg. Gall hwn, wrth gwrs, hefyd fod yn wendid os nad yw'r prif actorion yn ymateb i'r her yn chwim a chyda digon o arddeliad.(tud43)

Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector (Ebrill 2014)

- Ystyriai ychydig dros draean y cyflogwyr o'r wyth sector a drafodwyd yn yr ymchwil fod cael staff a chanddynt sgiliau Cymraeg yn eu sefydliad yn bwysig *iawn* (18 y cant) neu'n *weddol* bwysig (17 y cant). Roedd y ffigur yn uwch ymhlith cyflogwyr yn y sectorau Gofal Plant, Bwyd-amaeth a Gofal Cymdeithasol. Ar y llaw arall, teimlai tua dau o bob pump (39 y cant) *nad oedd hi'n bwysig o gwbl* cael staff a chanddynt sgiliau Cymraeg ar eu safle.
- Teimlai ychydig llai na thraean o'r holl gyflogwyr yn y sector preifat fod sgiliau Cymraeg eu staff yn cynnig rhywfaint o fudd i'w llinell waelod, er mai cymharol ychydig (pump y cant) a ystyriai fod y sgiliau hynny'n cael effaith sylweddol yn hynny o beth.
- Roedd dros chwarter y sefydliadau (28 y cant) o'r farn y byddai'n fuddiol iddynt gael mwy o staff sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg, neu fwy o staff a chanddynt lefel uwch o sgiliau Cymraeg.
- Yn gyffredinol, roedd gan un o bob deg cyflogwr swydd wag yn ystod y 12 mis diwethaf lle byddai sgiliau Cymraeg ar lefel sylfaenol o leiaf wedi bod yn ddymunol. Roedd hyn yn llawer uwch ymhlith cyflogwyr Gofal Plant (30 y cant) a chyflogwyr Gofal Cymdeithasol (19 y cant).
- Roedd saith y cant o'r sefydliadau'n disgwyl y byddai eu hangen am sgiliau Cymraeg yn cynyddu yn y 2-3 blynedd nesaf. Roedd hyn yn uwch ymhlith cyflogwyr Gofal Plant (28 y cant), Gofal Cymdeithasol (15 y cant), Creadigol (12 y cant) a Lletygarwch (10 y cant).

1.4 Er bod darparu addysg cyfrwng Cymraeg ynddo'i hun yn rhan hollbwysig o'r ymdrech i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ystyrir bod y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn faes hanfodol er mwyn symud tuag at gymdeithas ddwyieithog. Mae *laith Fyw: laith Byw* yn nodi chwe 'maes strategol' – y pedwerydd maes yw "cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle" a'r pumed yw, "cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion". Yn wir, ystyrir "sichrau rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle" yn elfen allweddol er mwyn sichrau bod effeithiau'r Strategaeth yn parhau i fod yn gynaliadwy dros amser.
(tud24)

6.10 Dywedodd ychydig dros ddau draean y cyflogwyr a chanddynt swyddi gwag a oedd, yn rhannol o leiaf, yn anodd eu llenwi oherwydd diffyg sgiliau Cymraeg, eu bod yn y pen draw wedi llenwi rhai neu'r holl swyddi (69 y cant). Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r cyflogwyr hyn (57 y cant) iddynt lenwi'r swyddi dan sylw â phobl nad oedd ganddynt y lefel a ddymunent o sgiliau Cymraeg (dau o bob pump o'r holl rai a chanddynt swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau Cymraeg). Unwaith eto, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn oherwydd y niferoedd sylfaen isel (48 o sefydliadau a chanddynt swyddi gwag lle'r oedd prinder sgiliau Cymraeg).
(tud95)

Fodd bynnag, cwynodd y cwmni nad oedd yn derbyn gwasanaeth cyfrwng Cymraeg digonol gan staff yr Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn Llywodraeth Cymru. Roedd y gwasanaeth hwnnw'n cymharu'n anffafriol â'r gwasanaeth gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr. Wrth ffonio llinell gymorth Gymraeg Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain, fel arfer roedd angen aros dau ddiwrnod am ymateb i ymholiad yn Gymraeg. Roeddent yn teimlo y dylai'r gwasanaeth fod ar gael yn Gymraeg, a hynny i'r un safon â'r gwasanaeth a ddarperir yn Saesneg.(tud139)

Potensial y Gymraeg i gyfrannu at wireddu amcanion Rhaglenni Ariannu Ewropeaidd 2014–2020 (Tachwedd 2013), Comisiynydd y Gymraeg.

2.11 **Ymyriad** Dylid anelu at greu proses uchelgeisiol gyfansawdd a fydd yn cwmpasu ystod o elfennau i wireddu potensial cysylltu sgiliau iaith a sgiliau gwaith. Bydd angen sicrhau bod y broses yn un hirdymor – sydd ar un llaw yn cydweithio â'r darparwyr cefnogaeth prif-ffrwd, ond sydd, ar y llaw arall, â'i phwyslais a'i chyllid ei hun.

2.12 Mae angen datblygu rhaglen weithredu integredig yn cynnwys (rhai enghreifftiau'n unig) cynlluniau i:

- nodi perthnasedd sgiliau cyfathrebu/Cymraeg i gyflogwyr o fewn sectorau ac ardaloedd daearyddol;
- cynyddu'r cysylltiad rhwng pobl â sgiliau cyfathrebu/Cymraeg a sectorau ble mae'r sgiliau hyn yn berthnasol a ble mae angen cymorth ar gyflogwyr wrth recriwtio;
- sefydlu proses frocera ragweithiol i gyplysu cyfleoedd/sectorau â charfanau o bobl berthnasol (e.e. cyfleoedd gwaith yn y sectorau gofal lle mae angen sgiliau cyfathrebu/ieithyddol, a lle gellir cyplysu hyn â charfanau o bobl a fu trwy addysg ddwyieithog).

2.13 Byddai'r broses yn adeiladu ar argymhellion 'Polisiâu Sgiliau a'r Iaith Gymraeg' Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, ac yn ystyried yr awgrymiadau a gynigiwyd eisoes gan Fentrau Iaith Cymru.

6. Model Gweithredol o'r Cynllun

Creu model fydd yn:**Creu cyflogaeth newydd ac rhoi Troedle Economaidd i'r Gymraeg**

Drwy:

Ddiwallu angen am wasanaeth

Adnabod yr anghenion gwasanaeth

Adnabod unigolion fyddai'n gallu llenwi swyddi, yn cynnwys defnyddio cyfundrefn fapio fel "Llwybro" ac edrych ar ddenu pobl cymwys yn ôl i Gymru trwy eu hysbysu o gyfleoedd cyflogaeth cyfrwng Cymraeg.

Adnabod anghenion hyfforddi i ddiwallu'r anghenion yn y dyfodol

Sefydlu menter cymdeithasol i gynnig y gwasanaeth

Diwallu potensial lleol

Adnabod cyfleoedd economaidd lleol i fanteisio arnynt, maes awyr agored, egni amgen, cadwraeth.

Adnabod unigolion fyddai'n gallu llenwi swyddi, yn cynnwys defnyddio cyfundrefn fapio fel "Llwybro" ac edrych ar ddenu pobl cymwys yn ôl i Gymru trwy eu hysbysu o gyfleoedd cyflogaeth cyfrwng Cymraeg.

Adnabod anghenion hyfforddi i ddiwallu'r anghenion yn y dyfodol
Sefydlu menter cymdeithasol i gynnig y gwasanaeth


Partneriaeth Genedlaethol

Credwn fod angen datblygu endid cenedlaethol newydd fydd yn arwain a chydlynu'r gwaith yma. Bydd yn gweithio yn agos iawn efo rhwydwaith y Mentrau Iaith er mwyn gallu adnabod anghenion lleol ac ymateb iddynt.

Bydd hefyd yn tynnu ar nifer o gyrff cenedlaethol a lleol eraill i hwyluso'r gwaith yma;

- Llywodraeth Cymru
- Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Y Comisiynydd Iaith
- Holl Fudiadau sydd yn gweithio drwy'r Gymraeg a dros y Gymraeg
- Colegau Addysg Bellach
- Gyrfa Cymru
- WLGA

Model gweithredol o'r cynllun;



Yma gwelwn y cylch allanol yn cynrychiolir marchnad lafur arferol lle mae unigolion yn dod i gyswllt efo Swyddi penodol.

O fewn gwelwn y mecanwaith y credwn bydd angen i greu marchnad lafur cyfrwng Cymraeg.

Credwn bydd angen swyddog M.L. (Marchnad Lafur) a swyddog Mentrau Cymdeithasol ym mhob Menter Iaith i adnabod cyfleoedd yn lleol.

Bydd gan y swyddogion yma wedyn mynediad i gronfa allweddol ganolig;

- Hyfforddiant sgiliau i siaradwyr Cymraeg
- Hyfforddiant iaith i'r rhai llai hyderus eu Cymraeg neu am wella trwy gyrsiau dwys.
- Cronfa Cyfalaf a Refeniw i gynorthwyo sefydlu mentrau cymdeithasol.

Bydd y gronfa yn cael ei weinyddu yn ganolog gan yr "Uned Farchnad Lafur" o fewn MICymru. Credwn o fewn yr uned yma bydd angen 5 aelod o staff i arbenigo yn y meysydd canlynol;

- **Cydlynnydd**

- **Datblygu cyfleoedd Lleol (Mentrau Cymdeithasol)**
- **Hyfforddiant sgiliau**
- **Hyfforddiant iaith**
- **Cyplysu unigolion a swyddi**
- **Grantiau cyfalaf a refeniw**

Credwn fydd yr elfen Menter Gymdeithasol a hyfforddi yn cydblethu gan fydd angen paratoi gweithwyr efo sgiliau penodol i weithio o fewn y mentrau os nad oes rhai eisoes yn bodoli.

Ceir disgrifiad manylach o ddyletswyddau swyddogion ynghyd a manylion eraill y cynllun yn Atodiad A

Bydd yr Uned ganolog yma wedyn hefyd mewn cyswllt efo prif bartneriaid sef;

- Comisiynydd y Gymraeg
- Y Llywodraeth

Byddwn hefyd mewn cyswllt efo Bwrdd Partneriaid bydd yn cynnwys nifer o gyrff amlwg sydd efo anghenion gweithlu Cymraeg. Bydd yr uned wedyn yn gallu cydweithio efo'r partneriaid yma i gyflawni ac ariannu eu hanghenion hyfforddiant er mwyn sicrhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Yr uned ganolog fydd hefyd yn arwain ar gydlynu bas data o swyddi lle mae'r Gymraeg yn ddefnyddiol a'i chyplysu efo bas data o siaradwyr Cymraeg efo sgiliau perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys elfen gref o dargedu unigolion sydd wedi gorfod gadael Cymru er mwyn cael hyd i waith efo'i chymwysterau neu sgiliau.

Esiamplau ymarferol;

- Mae yna ddiffyg gwersi nofio cyfrwng Cymraeg yn ardal Rhydaman. Mae'r Fenter Iaith lleol yn ymwybodol o siaradwr Cymraeg sydd yn awyddus i hyfforddi i fod yn hyfforddwr. Mae'r Fenter yn cael mynediad i gronfa allweddol fydd yn talu am 75% o'r hyfforddiant. Mae'r unigolion yn hyfforddi ac yn cael ei gyflogi yn llawrydd yn yr ardal i gynnal gwersi trwy'r Gymraeg.
- Cydweithio efo adrannau adnoddau dynol sefydliadau cyhoeddus i adnabod ei anghenion darparu gwasanaethau Cymraeg hir dymor fel ei bod yn gallu cydymffurfio efo'r safonau iaith newydd.

- Yng Ngwynedd mae yna alw am hyfforddwr cafadu sy'n medru'r Gymraeg, mae'r Fenter lleol wedi adnabod unigolun sydd efo'r sgiliau yma ond ddim yn rhugl ei Gymraeg. Mae'r Fenter yn cael mynediad i'r cronfa allweddol "sgiliau iaith", mae'r unigolun yn mynychu cwrs dwys pythefnos. Mae hyn yn ei alluogi i ddechrau gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae'r Coleg Cymraeg yn chwilio am ddarlithydd Cemeg. Trwy'r bwrdd partneriaeth maent yn dod i gyswllt efo unigolun sydd yn darlithio Cemeg mewn Prifysgol yn Lloger. Mae'n ceisio am y swydd ac yn llwyddo oherwydd prinder darlithwyr arbenigol sydd yn medru'r Gymraeg.
- Oherwydd awydd Awdurdod Iechyd i wellau ansawdd ei gwasanaethau maent yn awyddus i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg. Maent yn cydweithio efo'r cynllun farchnad lafur i greu cynllun tymor hir i farchnata'r angen am siaradwyr Cymraeg, hyfforddiant iaith i staff a thargedu.
- Mae Menter Iaith Conwy am barhau i hyfforddi siaradwyr Cymraeg i weithio yn y maes awyr agored. Maent yn gallu neud hyn drwy'r gronfa allweddol hyfforddiant.
- Does ddim meithrinfa Cymraeg mewn ardal. Mae'r Fenter iaith leol a Mudiad Meithrin yn sefydlu cwmni newydd i ddatblygu un. Bydd angen arian cyfalaf a referniw i ddechrau cynllun. Bydd modd defnyddio hyn i dynnu arian cyfatebol megis y Loteri.
- Mae Consortiwm lleol o ddarparwyr gweithgareddau awyr agored am brynu canolfan awyr agored sydd ar werth i'w ddatblygu.
- Agor tafarn/clwb Cymraeg mewn tref lle nad oes lle a lle amlwg i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr gyfarfod.
- Adnabod angen am wasanaeth lleol a'i ddatblygu i fod yn fusnes cymdeithasol sydd yn gweithredu drwy'r Gymraeg, megis Antur Waen Fawr (ailgylchi) neu Seren, Blaenau Ffestiniog (ailgylchu Dodrefn).

Anghenion sgiliau gwahanol fathau o unigolion

Gallwn grynhoi'r esiamplau yma mewn i bedwar math;

7. Cyfleoedd ariannu

Edrych ar bosibiliadau ariannu Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg gan gynnwys denu arian o Gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y cyfnod 2014-2021. Mae'r cynllun yn ei gyfarwydd yn debygol o gyd-fynd efo nifer o flaenoriaethau gwahanol. Golygai hyn o bosib fydd rhaid cyflwyno mwy na un cais oherwydd bod ceisiadau i fod disgyn o fewn un flaenoriaeth. Isod yr ydym wedi adnabod pa elfennau o'r cynllun sydd yn cyd-fynd efo gwahanol blaenoriaethau'r **elfen "Menter Gymdeithasol" a chymorth i fusnesau, arwyddion Cymraeg a dwyieithog.**

ERDF Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaCh

Thema 2A: Mynediad at gyllid

Thema 2B: Cymorth i fusnesau

ERDF Blaenoriaeth 4: Gwneud lleoedd yn fwy atyniadol yn fasnachol

Thema 4A: Cysylltedd

Thema 4B: Datblygu trefol cynaliadwy

Dwyrain Cymru (ardaloedd 'mwy datblygedig': Caerdydd, Sir y Fflint, Sir Fynwy, Casnewydd, Powys, Bro Morgannwg, Wreccsam)

ERDF Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaCh 5

Thema 2A: Mynediad at gyllid

Thema 2B: Cymorth i fusnesau

ERDF Blaenoriaeth 4: Gwneud lleoedd yn fwy atyniadol yn fasnachol

Thema 4A: Cysylltedd

Yr elfen hyfforddi sgiliau a sgiliau iaith

Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)

ESF Blaenoriaeth 1: Trechu tlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy

Thema 1A: Helpu pobl i gael gwaith

Thema 1B: Cynhwysiant ac ymgysylltiad â'r farchnad lafur

Thema 1C: Helpu pobl i aros a gwneud cynnydd yn eu gwaith

ESF Blaenoriaeth 1: Trechu tlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy

Thema 1B: Cynhwysiant ac ymgysylltiad â'r farchnad lafur

ESF Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer twf

Thema 2A: Hyblygrwydd, twf a chynnydd

Y Cynllun Datblygu Gwledig (RDP)

Mae'r cynllun hefyd i weld yn cyd-fynd efo amcanion o fewn y **Cynllun Datblygu Gwledig (RDP)**.

Y Gymuned:

3.11 Blaenoriaeth 6: Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol, Lleihau Tlodi a Datblygu Economaidd mewn Ardaloedd Gwledig.

Mae yna phwyslais pellach ar y Gymraeg o fewn y ddogfen ganlynol;

Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 Cynigion Terfynol:

Hyrwyddo ymyriadau sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer yr iaith Gymraeg a datblygu economaidd ar y cyd. (tud28)

135. Mae rhai teuluoedd ar draws Cymru yn ei chael hi'n anodd manteisio ar ofal plant yn sgil oriau agor anhyblyg, prinder gofal yn ystod gwyliau'r ysgol a chyn ac ar ôl ysgol a hefyd fylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog. Yn aml mae'r problemau hyn yn waeth i deuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig gan fod yn rhaid iddynt deithio cryn bellter i gyrraedd y ddarpariaeth. (tud52)

Buddsoddiadau mewn gwasanaethau sylfaenol lleol er mwyn gwella mynediad, cynyddu'r gwasanaethau anstatudol fel gofal plant, a helpu i ddatblygu opsiynau o safbwynt darparu gwasanaethau drwy fodolau o fentrau cymdeithasol lleol. Gall gofal plant fod yn broblem i deuluoedd mewn ardaloedd gwledig yn sgil y ffaith nad yw o bosibl gerllaw a hefyd yr heriau ychwanegol sydd ynghlwm wrth geisio sicrhau darpariaeth briodol drwy gyfrwng y Gymraeg. Tud(54).

Bydd modd hefyd cyflwyno ceisiadau am gynlluniau cenedlaethol.

Mae'n bosib iawn felly bydd angen 2 gais er mwyn cyd rhedeg efo Bleanoraethau'r rhaglenni uchod. Mae'r cynllun yn rhannu i ddwy brif elfen;

- Anghenion hyfforddi ar gyfer gwaith.
- Mentrau Cymdeithasol a chymorth i fusnesau bach a chanolig.

Wrth brisio'r cynllun yn ei chyfanrwydd yr ydym hefyd wedi gofyn am gyfraniad gan Lywodraeth Cymru. Yn fras dyma yw oblygiadau cost y cynllun:

Pris y cynllun, y flwyddyn:

£5,349,917 Cyfraniad Ewrop £2,953,958 (55%) Cyfraniad y Llywodraeth ac eraill (45%)

Ceir dadansoddiad o'r costau yn atodiad B

8.Dylanwadau ar raglenni eraill

Credwn efo arbenigaeth y Mentrau iaith a'u phartneriaid fedrith y cynllun yma ddylanwadu a bwydo mewn i raglenni eraill sydd yn cael ei weithredu gan y llywodraeth ond sydd heb yr arbenigaeth o weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg. Golygai hyn fydd darpariaeth Cymraeg rhaglenni eraill yn gwella.

9. Camau Nesaf

Credwn rŵan fod angen i'r Llywodraeth ystyried y cynllun a'i rhinweddau yn fanwl ac i ystyried os oes modd cyfrannu cyllid tua ato. Mae rhaid body n wylidwrus peidio â disgyn mewn i fagl sydd wedi cael ei chrybwyll yn adroddiad diweddar; **Adolygiad o Waith y Mentrau iaith, y Cynlluniau Gweithredu iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg AmanTawe (Ionawr 2014)**

“Cryfder y cynllun arfaethedig fyddai harneisio diddordebau'r Mentrau â phrif actorion polisi'r Gymraeg. Gall hwn, wrth gwrs, hefyd fod yn wendid os nad yw'r prif actorion yn ymateb i'r her yn chwim a chyda digon o arddeliad.(tud43)”

Os yw'r llywodraeth yn penderfynu ein cefnogi bydd angen darparu adnoddau i Mentrau iaith Cymru i baratoi'r cais. Golygai hyn rhoi tîm bach at ei gilydd oddeutu 3 aelod o staff. Mae'n bosib buasai Mentrau iaith Cymru yn gallu cyfrannu rhywfaint at gost hyn.

O hyn gallwn ddechrau'r gwaith o baratoi ceisiadau i gronfeydd strwythurol Ewrop fydd yn rhoi llawer mwy o werth am arian i'r Llywodraeth.

10. I Gloi

Mae'r dystiolaeth sydd wedi cael ei gasglu gan adroddiadau diweddar a gomisiynwyd gan y llywodraeth wedi ychwanegu yn sylweddol at ein dadleuon dros blethu'r Gymraeg yn agosach at y byd gwaith a adfywion economaidd.

Mae hefyd wedi amlygu'r diffyg ein strategaeth iaith ar lefel weithredol yn y faith nad oes cynllun presennol yn mynd ati i ddelio efo 2 o brif wendidau sefyllfa'r Gymraeg, sef allfudiad a diffyg gwasanaethau yn y Gymraeg

Credwn fod iechyd y Gymraeg yn ddangosydd cymdeithasol effeithiol o sut mae economi Cymru wedi cael ei ddatblygu dros y canrifoedd. Mae'r Cymry Cymraeg wedi bodoli fel cymdeithas ieithyddol a diwylliannol heb fawr o rym economaidd. Nid oes troedle economaidd digonol wedi bod i gynnig cynhaliaeth. Gwaith wedi'r cwbl mwy na dim sydd yn hoelio pobl lawr i ddarn o dir. Credwn os lwyddwn i wyrdroi sefyllfa'r Gymraeg byddwn hefyd yn creu economi a chymdeithas fwy cynaliadwy ac yn creu dyfodol hir dymor i'r Gymraeg.

Atodiad A - Tystiolaeth

Mae tystiolaeth o'r angen i greu Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg wedi ei gynnwys mewn nifer o ddogfennau ymchwil diweddar gan gynnwys:

Adolygiad o'r Dystiolaeth mewn perthynas â'r Strategaeth ar gyfer y Gymraeg Profiad Siaradwyr Cymraeg o'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal (Adroddiad a baratowyd gan IAITH: y Ganolfan Cynllunio Iaith ar gyfer Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Llywodraeth Cymru a Chyngor Gofal Cymru) Mwy na geiriau.... Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol Anghenion a dyheadau pobl ifanc o safbwynt y Gymraeg, Ymgynghoriad gyda phobl ifanc. Urdd Gobaith Cymru 31 Hydref 2011

5.7 Ceir tystiolaeth gadarn bod defnydd oedolyn o'r Gymraeg mewn cyd-destunau cymunedol yn dibynnu ar gyswllt parhaus â'r iaith ar ôl gadael yr ysgol. (Gathercole a Thomas, 2009). Fel y dywed Baker yn Thomas a Roberts (2011): "Informal influences within school and pervading Anglicising influences out of school (e.g. TV, 'pop' culture, the information technology revolution) soon provide skills in the majority language and enculturation into English and American value-systems. In a major sense, bilingual education alone cannot reverse language trends. There needs to be other support mechanisms for the language, from cradle to grave....(Welsh) needs to penetrate an individual's whole way of life....and be present in everyday active, participatory culture"

(Tud 12, Adolygiad o'r Dystiolaeth mewn perthynas â'r Strategaeth ar gyfer y Gymraeg)

5.13 Roedd yr astudiaeth yn cwestiynu a ellid disgrifio'r cynlluniau a gasglwyd ynghyd dan iaith Pawb, gan gynnwys y rhai yr oedd disgwyl i Awdurdodau Lleol eu cyflawni, fel rhai oedd yn rhan o gynllun neu strategaeth iaith genedlaethol, neu fel rhai a oedd â'r potensial i fynd i'r afael ag erydiad y defnydd o'r Gymraeg yn y cartref, yn y gymuned ac yn yr ardal ehangach. I ategu hynny, roedd yr astudiaeth yn tynnu sylw at ostyngiad o 2 y cant rhwng 1991 a 2001 yn nifer y plant oedd yn siarad Cymraeg ac oedd yn byw naill ai mewn teuluoedd oedd yn siarad Cymraeg neu deuluoedd lle roedd un o'r rhieni yn siarad Cymraeg. Er y bu cynnydd yn nifer y plant sy'n siarad Cymraeg ac sydd â rhieni di-Gymraeg (o ganlyniad i dwf addysg cyfrwng Cymraeg), dyma un o honiadau Williams:

"..severe difficulties with the notion that an education system alone can produce the requisite ethnolinguistic vitality to sustain a semi-autonomous Welsh-medium culture".

(Tud 14, Adolygiad o'r Dystiolaeth mewn perthynas â'r Strategaeth ar gyfer y Gymraeg)

8.2 Prin yw'r dystiolaeth benodol bod darparu gwasanaethau mewn iaith leiafrifol yn cynyddu bri na statws yr iaith. Ond ceir corff o dystiolaeth sy'n dangos mai dim ond os ceir cyfleoedd i'w defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd y bydd

iaith yn ffynnu. Mae darparu gwasanaethau yn amlwg yn gyfle o'r fath (Grin, 2002).

(Tud 27, Adolygiad o'r Dystiolaeth mewn perthynas â'r Strategaeth ar gyfer y Gymraeg)

8.5 Dangosodd arolwg Llais Defnyddwyr Cymru - yn achos gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau preifat - bod canran y siaradwyr Cymraeg a oedd yn teimlo ei bod yn bwysig gallu cael gwasanaethau Cymraeg yn uwch na'r ganran a oedd yn dewis defnyddio'r gwasanaethau hynny. Mae hynny'n awgrymu, naill ai nad yw'r gwasanaethau ar gael neu bod rhwystrau yn ffordd pobl o ran cael gafael ar wasanaethau Cymraeg. Mewn arolygon a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg mewn chwech o drefi yn 2005/06, gwelwyd effaith bositif cynlluniau iaith. Ond gwelwyd hefyd fod nifer o ymrwymadau heb eu cyflawni: o blith y gwasanaethau a ddarperid gan gyrff y llywodraeth câi 73 y cant eu darparu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, ac o blith y rhai a ddarperid gan gyrff llywodraeth leol, câi 69 y cant eu darparu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae Misell (2000) yn awgrymu bod y rhwystrau sydd yn ffordd pobl o ran cael gafael ar wasanaethau yn debygol o'u gwneud yn llai parod i ddefnyddio'r Gymraeg hyd yn oed pan fydd gwasanaeth Cymraeg neu ddwyieithog ar gael.

(Tud 28, Adolygiad o'r Dystiolaeth mewn perthynas â'r Strategaeth ar gyfer y Gymraeg)

8.7 Ceir rhywfaint o dystiolaeth ansoddol mai dim ond yn eu hiaith gyntaf y gall defnyddwyr gwasanaeth gael triniaeth effeithiol (Hughes et al, 2009). Mae hyn yn arbennig o wir yn achos gwasanaethau meddygol, megis y rhai sy'n cael therapi iaith a lleferydd, a'r grwpiau allweddol canlynol:
o pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl o pobl sydd ag anawsterau dysgu ac anghenion arbennig eraill
o pobl hŷn o plant ifanc.

(Tud 29, Adolygiad o'r Dystiolaeth mewn perthynas â'r Strategaeth ar gyfer y Gymraeg)

8.13 Mae tystiolaeth hefyd yn dangos, fodd bynnag, nad yw Deddf yr Iaith Gymraeg, ar ei phen ei hun, yn ddigon. Mae rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau yn y Gymraeg yn parhau. Mae Llais Defnyddwyr Cymru'n crynhoi'r prif rwystrau fel a ganlyn:

1. Darpariaeth – diffyg cyflenwad gwasanaethau yn y Gymraeg
2. Canfyddiadau – diffyg galw am wasanaethau oherwydd diffyg hyder ymhlith siaradwyr nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg
3. Hyrwyddo – diffyg

(Tud 30, Adolygiad o'r Dystiolaeth mewn perthynas â'r Strategaeth ar gyfer y Gymraeg)

Pa mor berthnasol yw'r thema o ran y defnydd a wneir o'r Gymraeg?

9.1 Mae Grin (2002) yn cynnig model o ymddygiad iaith lle ceir tri amod ar gyfer sicrhau bywiogrwydd iaith, sef: y gallu i ddefnyddio iaith; y cyfleoedd i'w defnyddio; a'r awydd i wneud hynny. Felly, mae darparu sefyllfaoedd lle gellir defnyddio'r Gymraeg (megis yn y gweithle) yn rhan allweddol o'r ymdrech i hyrwyddo ac annog yr iaith yn gyffredinol (Llais Defnyddwyr Cymru, 2010).

20. Mae ymatebwyr yn awgrymu nifer o newidiadau a gwelliannau posib. Mae'r rhain yn ymwneud â datblygu'r gweithlu, rhoi gwerth ar ddarpariaeth ddwyieithog ar lefel sefydliad ac unigolyn, a chynnwys yn rhan o'r systemau gweinyddol a phroffesiynol y dulliau angenrheidiol i adnabod anghenion iaith a gwneud defnydd deallus o'r data hynny.

(Tud 7, Profiad Siaradwyr Cymraeg o'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal, Adroddiad a baratowyd gan IAITH: y Ganolfan Cynllunio Iaith ar gyfer yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Llywodraeth Cymru a Chyngor Gofal Cymru 2012)

9. Mae unigolion mewn sawl rhan o Gymru yn cyfeirio at yr argraff fod gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn fater o hap a damwain yn hytrach nag yn ffrwyth cynllunio clir. Yn ôl un ymatebydd, 'Mae'r arfer da, pan mae o'n digwydd, yn digwydd yn organig.' Hynny yw, mae'n adlewyrchu natur y gweithlu lleol, dwyieithog yn hytrach na bod yn gynnyrch cynllunio ymwybodol.

(Tud 4, Profiad Siaradwyr Cymraeg o'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal, Adroddiad a baratowyd gan IAITH: y Ganolfan Cynllunio Iaith ar gyfer yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Llywodraeth Cymru a Chyngor Gofal Cymru 2012)

iii) Bydd y data a gesglir adeg y cyfeiriad yn cyfrannu at y broses o sefydlu'r angen sydd heb ei ddiwallu (unmet need) yng nghyswllt darpariaeth iaith addas. Defnyddir y data hynny gan asiantaethau wrth ddatblygu eu strategaethau iaith Gymraeg yn ogystal â'u strategaethau i ddatblygu'r gweithlu a'u strategaethau hyfforddi. Gwneir hynny er mwyn datblygu systemau cynnal a chefnogi sy'n rhoi cyfle i staff ddatblygu a chryfhau eu sgiliau iaith ac felly i ymestyn ystod y gwasanaethau sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg.

(Tud 61, Profiad Siaradwyr Cymraeg o'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal, Adroddiad a baratowyd gan IAITH: y Ganolfan Cynllunio Iaith ar gyfer yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Llywodraeth Cymru a Chyngor Gofal Cymru 2012)

Sefydliadau i weithredu dull systematig tuag at wasanaethau Cymraeg fel rhan annatod o gynllunio a darparu gwasanaeth.

(Tud 3, 'Mwy na geiriau...' Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol - Crynodeb Gweithredol)

Cynllunio a darparu rhaglenni addysg, dysgu a datblygu sydd yn adlewyrchu cyfrifoldeb y gwasaneth i gynllunio a darparu gwasanaethau Cymraeg.

(Tud 4, 'Mwy na geiriau...' Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol - Crynodeb Gweithredol)

Nid yw pobl ifanc yn teimlo bod darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys gwasanaethau ieuencid, hamdden a chwaraeon yn cyfarfod a'u gofynion yn ieithyddol. Felly argymhellwn y dylid gwneud asesiad o ddarpariaeth awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill i bobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r nod o gynllunio ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth. Angenion a dyheadau pobl ifanc o safbwynt y Gymraeg.

(Casgliadau ac Argymhellion Ymgynghoriad gyda phobl ifanc. Urdd Gobaith Cymru, Hydref 2011)

29. Gwella'r wybodaeth sydd ar gael am y farchnad lafur o ran y galw am staff sydd â sgiliau Cymraeg, ar lefel ranbarthol a fesul sector, a chyhoeddi'r wybodaeth drwy'r sianeli priodol.

(Tud 39, Iaith Fyw:Iaith Byw)

"Around a third of 1991's 15-year-old Welsh-speakers had migrated to England by 2001."

(Delyth Morris (2010) 'Welsh in the 21st Century', Cardiff; University of Wales Press)

"Rydyn ni bron â bod mewn sefyllfa o fod angen strategaeth sydd ddim yn strategaeth iaith am nad yw'r sefyllfa mewn gwirionedd yn fater ieithyddol pur ond yn ymwneud mwy â chynaliadwyedd cymdeithasol-economaidd."

(Yr Athro Harol Carter, Golwg Ionawr 27 2011)

(Achosion Busnes)

Traveline Cymru

Mae'r gwasanaeth galwadau yn cael ei weithredu ym Mhenrhyndeudraeth. Ceir tua 16 o bobl yn gweithio ar y gwasanaeth hwn sy'n cynnig cyngor ac yn ymateb ymholiadau gan y cyhoedd.

Mae'r staff i gyd yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ac felly yn ymateb i'r galwadau a geir yn ddwyieithog. O ganlyniad mae defnyddwyr yn gallu dewis pa iaith y maent am dderbyn y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth hwn yn enghraifft le nad oes angen dwy ganolfan alwadau ffôn. Gan fod y cwmni yn recriwtio staff dwyieithog mae gwerth ychwanegol i'r Gymraeg ac mae'n gwneud synnwyr busnes iddynt allu cyflawni gwasanaeth gwbwl ddwyieithog.

O fewn y diwydiant telegyfathrebu yn aml mae cwmnïau yn buddsoddi mewn dwy ganolfan alwadau y cyntaf ar gyfer y Saesneg a'r llall ar gyfer y Gymraeg. Gwelir hefyd bod buddsoddiad sylweddol yn cael ei roi i farchnata rhifau ffôn Saesneg a bychan iawn i'r buddsoddiad ar gyfer gwasanaethau Cymraeg. O ganlyniad gwelir mai bychan iawn yw'r galw am wasanaethau.